# GWREIDDIO GYDA'N GILYDD

COED CADW
WOODLAND
TRUST

# COED A CHOEDWIGOEDD: BUDDSODDIAD DOETHAF CYMRU

## Manifffesto ar gyfer Cymru iachach, decach a gwytnach

Kylie Jones Mattock
Cyfarwyddwr – Cymru



Ar hyn o bryd, mae pethau'n anodd ar bobl Cymru. Mae llawer yn ymgodymu â biliau sy'n codi, pwysau ar y gwasanaeth iechyd, ansicrwydd swyddi ac ymdeimlad ehangach o ansicrwydd gwleidyddol ac economaidd.

Gyda chymaint yn mynd â'n sylw, mae'n ddealladwy nad yw coed a choedwigoedd yn teimlo fel y pryder mwyaf brys bob amser. Yn aml iawn, maen nhw'n cael eu hanghofio – nid oherwydd nad yw pobl yn credu bod gwerth iddynt, ond gan fod cymaint o bethau eraill ar eu meddyliau.

Ond nid mater ymylol yw coed. Maen nhw'n un o'r dulliau mwyaf ymarferol a chost-effeithiol o wella iechyd y cyhoedd, amddiffyn cymunedau, cryfhau a diogelu'r economi a pharatoi Cymru ar gyfer yr hyn sy'n dod nesaf mewn dyfodol ansicr.

Dyna'n union pam mae'r sgwrs hon mor bwysig.

Nid mater o ofyn i bobl boeni mwy am natur nag maen nhw'n poeni am bethau eraill yw hyn. Ond mater o gydnabod gwirionedd syml: pan fydd Cymru'n gofalu am ei choed, bydd Cymru'n well ei byd – yn iachach, yn decach ac yn wytnach.

### Nid peth braf i'w cael yw coed. Maen nhw'n hanfodol.

Mae coed a choedwigoedd yn cadw'n strydoedd yn oerach yn ystod tywydd poeth, maen nhw'n glanhau'r aer mae ein plant yn ei anadlu, yn arafu llifogydd cyn iddyn nhw daro cartrefi a ffermydd, yn amddiffyn priddoedd sy'n tyfu ein bwyd, ac yn storio carbon na allwn fforddio'i ryddhau os yw Cymru am gyflawni ein hymrwymiadau hinsawdd.

Yn gyson, mae arolygon barn yn gosod iechyd a lles, a'r economi, fel dwy brif flaenoriaeth pleidleiswyr – ac mae'r grym gan goed i gynnig enillion gwych yn y ddau faes hyn.

Yn syml, coed yw ein Gwasanaeth Iechyd Naturiol. Mae buddsoddiad ynddynt yn fuddsoddiad yn ein hiechyd a'n lles ar gyfer y dyfodol, ac yn un o'r ffyrdd mwyaf cost-effeithiol o wella bywydau ac atal niwed.

Ac eto, mae mynediad at y manteision hyn yn gwbl anghyfartal. Yn aml iawn, ein cymunedau mwyaf difreintiedig a'r rhai sy'n wynebu'r canlyniadau iechyd gwaethaf sydd â'r lleiaf o goed. Nid cyd-ddigwyddiad yw hynny, ond dewis polisi – ac fe allwn ei newid.

### Rydyn ni wedi bod yma o'r blaen

Yn ystod y pandemig, fe wnaeth llawer ohonon ni ailddarganfod mor bwysig yw natur. Pan ddaeth bron popeth arall i ben, dechreuodd pobl droi at goedwigoedd cyfagos, strydoedd coediog a mannau gwyrdd – i gael cysur, tawelwch a llonyddwch.

Fe wnaeth yr eiliadau hynny ein hatgoffa o rywbeth sylfaenol; rhywbeth roedd llawer ohonon ni wedi'i gymryd yn ganiataol: nid peth braf i'w gael yw byd natur. Mae'n hanfodol.

Wrth i'r argyfwng hinsawdd gyflymu ac i wasanaethau cyhoeddus ddod o dan straen cynyddol, economi ffug yw trin natur fel rhywbeth dewisol.

### Y dewis sy'n wynebu Cymru

Mae yna lwybr doethach. Un sy'n trin coed a choedwigoedd fel ased cenedlaethol, nid fel ôl-ystyriaeth. Er mwyn creu Cymru iachach, decach a gwytnach, rydyn ni'n galw ar y Senedd nesaf i ganolbwyntio ar bedair blaenoriaeth glir fydd yn sicrhau bod gwerth llawn coed a'r gwasanaethau anhepgor maen nhw'n eu cynnig yn cael eu diogelu a'u darparu i bawb.

- Gwneud tegwch coed yn genhadaeth genedlaethol – fel bod pawb yn elwa o gymdogaethau iachach a gwyrddach
- Sicrhau dyfodol gwydn i amaeth, cymunedau gwledig a diwylliant Cymru drwy wneud yn siŵr bod gwasanaethau hanfodol coed yn cael eu gwireddu.
- Diogelu ac adfer ein treftadaeth fyw – gan fuddsoddi mewn coedwigoedd glaw a choedwigoedd hynafol fel asedau cenedlaethol
- Tyfu Cymru gyda choed, gan gefnogi swyddi gwyrdd – a datblygu sgiliau, cadwyni cyflenwi a ffyniant hirdymor







# EIN BLAENORIAETHAU AR GYFER LLYWODRAETH NESAF CYMRU

# 1. RYDYN NI'N GALW AR LYWODRAETH NESAF CYMRU I WNEUD Y CANLYNOL:



## GWNEUD TEGWCH COED YN GENHADAETH GENEDLAETHOL

Ddylai lle rydych chi'n byw ddim penderfynu pa mor iach ydych chi – ond yn aml yng Nghymru, mae hynny'n gallu bod yn wir.

Mae tystiolaeth bod coed yn cynnig gofal iechyd ataliol. Maen nhw'n lleihau llygredd aer, yn cadw cymdogaethau yn oerach yn ystod tywydd poeth, yn cefnogi lles meddyliol ac yn lleihau'r risg o glefydau anadlol a chardiofasgwlaidd, gan leihau'r pwysau hirdymor ar y gwasanaeth iechyd. Er hynny, yn aml iawn y cymunedau sy'n wynebu'r anghydraddoldebau iechyd mwyaf sydd â'r lleiaf o ardaloedd coediog.

### YR ALWAD:

Mabwysiadu tegwch coed fel rhaglen drawslywodraethol genedlaethol, gan dargedu buddsoddiad lle bydd coed yn cynnig y manteision iechyd, hinsawdd a chymdeithasol mwyaf.

### Y DYSTIOLAETH:

- Amcangyfrifwyd bod y manteision iechyd meddwl blynyddol sy'n gysylltiedig ag ymweliadau â choetiroedd gwledydd Prydain yn £185 miliwn y flwyddyn (ar brisiau 2020). Yng Nghymru mae'r gwerth hwn yn £13 miliwn. Yn 2022, amcangyfrifwyd mai gwerth blynyddol manteision iechyd cyffredinol hamdden mewn coetiroedd yw £1.149 biliwn, tra bod y gwerth hwn yng Nghymru yn £99 miliwn.[1]



Darlun: Lauren Nicholson / Shrubsy Art – Tanio Arloesedd: Her Cadwraeth, Coed Cadw


- Mae 96% o feddygon teulu yn awyddus i weld camau ataliol cryfach ar risgiau iechyd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd. Mae dros dri chwarter yn credu y gallai mwy o goed leihau'r pwysau ar y GIG e.e. lleihau asthma ymhlith plant drwy waith plannu coed o gwmpas ysgolion yn benodol.[2]
- Gallai buddsoddiad blynyddol o lai na £5 miliwn hyd at 2030 sicrhau ardaloedd coediog yn o leiaf 20% o ardaloedd trefol Cymru, gan ad-dalu'r buddsoddiad sawl gwaith mewn manteision iechyd a lles.[3]
- Yn ôl arolwg diweddar, mae 90% o bobl Cymru yn cefnogi gwaith Coed Cadw yn annog rhagor o blannu coed mewn ardaloedd trefol, ac mae 82% o'r rhai sy'n byw mewn cymunedau difreintiedig yng ngwledydd Prydain yn cefnogi plannu coed.[4]

### YR ATEBION POLISI:

- **Bod pob cyngor yng Nghymru yn paratoi Strategaeth Coed a Choetiroedd hirdymor** sy'n rhoi gwerth ar asedau coed presennol a rhai newydd.
- **Isafswm o 20% o ardaloedd coediog mewn ardaloedd trefol**, ac isafswm o 30% o ardaloedd coediog ym mhob datblygiad newydd.
- **Mabwysiadu safon ar gyfer mannau gwyrdd hygyrch i'r cyhoedd** yn seiliedig ar yr egwyddor 3-30-300, gan ymestyn mannau gwyrdd hygyrch o ansawdd, yn enwedig ar gyfer y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru.[5]
- **Defnyddio'r Sgôr Tegwch Coed i gau'r bwlch asedau gwyrdd** yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig – gan ganolbwyntio gwaith diogelu coed a phlannu newydd mewn ardaloedd sydd â'r tegwch coed isaf.

### SUT MAE 'DA' YN EDRYCH:

- Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wedi mabwysiadu strategaeth can mlynedd i ehangu, amddiffyn ac adfer tirwedd goediog y Parc.[6]
- Mae Strategaeth Coed Wrecsam yn cydnabod coed fel asedau cyhoeddus sy'n cynnig manteision iechyd, hinsawdd ac economaidd.[7]









Lluniau map gwres thermal, Adamsdown Caerdydd.

# 2. RYDYN NI'N GALW AR LYWODRAETH NESAF CYMRU I WNEUD Y CANLYNOL:

### SICRHAU DYFODOL GWYDN AR GYFER CYMUNEDAU GWLEDIG A BYD AMAETH CYMRU

Gyda thros 90% o dir Cymru'n cael ei reoli ar gyfer amaethyddiaeth, mae arferion amaethyddol yn effeithio ar bob un ohonon ni. Mae gwydnwch mewn amaeth yn golygu gwydnwch cenedlaethol.

Mae integreiddio coed ac atebion o fyd natur i mewn i systemau amaethyddol yn gwella cynhyrchiant, lles anifeiliaid a iechyd pridd[5], gan leihau'r effaith gan lifogydd, sychder a chostau mewnbwn uwch. Nid mater o dynnu tir oddi ar gynhyrchu bwyd yw hyn – ond mater o helpu systemau naturiol i weithio'n well, gan leihau effaith patrymau tywydd eithafol i bawb.

### YR ALWAD:

Ariannu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn llawn fel mai'r dewis diofyn i ffermwyr Cymru yw gweithio gyda natur ac integreiddio coed mewn ffordd hygyrch, ymarferol a phroffidiol.

### Y DYSTIOLAETH:

- Bydd tua 30% o ardaloedd coediog yn lleihau llif cyflymaf nentydd yn ystod stormydd o leiaf 5%. Mae hyn yn ostyngiad o dros fetr ciwbig bob eiliad yng nghyfradd y llif, sef 1000 litr yr eiliad, neu 86.4 miliwn litr y dydd. Mae'n cyfateb i dros 35 o byllau nofio Olympaidd.[8]
- Gall cynyddu atebion naturiol ar ffermydd leihau costau ac oriau rheoli ffermydd yn naturiol – gyda chynnydd cyfartalog o dros 40% wedi'i weld mewn proffidioldeb.[9]
- Mae lleiniau cysgodi ac amaeth-goedwigaeth yn lleihau llif cyflymaf llifogydd yn sylweddol yn ystod digwyddiadau glaw trwm, gan amddiffyn ffermydd a chymunedau sydd i lawr yr afon.[10]

### YR ATEBION POLISI:

- **Clustnodi cyllid hirdymor i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar gyfer tymor nesaf y Senedd,** gan roi hyder i ffermwyr allu ymuno â'r haen Gyffredinol a sicrhau bod y taliad gwerth cymdeithasol ac amgylcheddol wedi'i gysylltu'n agos ag enillion amlwg.
- **Mwy o bwyslais ar yr haenau Opsiynol a Chydweithredol,** fydd yn sicrhau manteision amgylcheddol a hinsawdd ychwanegol.
- **Buddsoddi mewn cymorth ymarferol sydd wedi'i ddarparu'n lleol** i ffermwyr, gan gynnwys dysgu gan gyfoedion, arweiniad wyneb yn wyneb arbenigol ac offer digidol hygyrch fel Mapio Llif Hydrolegol Uchaf ar y Tir.
- **Rhaid mynd ati ar frys i ddiwygio hawliau datblygu** er mwyn rhoi cydsyniad tybiedig i gyrff cymwys penodol fynd ati mewn modd fforddiadwy i ddatblygu a gweithredu atebion sy'n seiliedig ar Natur.


### SUT MAE 'DA' YN EDRYCH:

- Mae amaeth-goedwigaeth yng Nghymru yn integreiddio coed i dirweddau amaethyddol er mwyn gwella iechyd pridd, diogelu da byw, lleihau llifogydd a thorri costau.[11]
- Mae cyfranogiad cymunedol mewn gweithredu ar yr hinsawdd yn uwch i fyny'r gadwyn wedi grymuso cymunedau y mae llifogydd yn effeithio arnynt ac wedi lleihau costau dynol yr effeithiau.[12]
- Mae'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, y Gwasanaeth Natur Cenedlaethol, rhagnodi cymdeithasol a gwyrdd, a'r cwricwlwm addysg wedi'u hintegreiddio â rhaglenni Meithrinfeydd Coed Cymunedol. Yn hollbwysig, mae hyn wedi galluogi gweithredu ymarferol ar lawr gwlad dros yr hinsawdd.[13]
- O ganlyniad i ehangu meithrinfeydd coed lleol, erbyn hyn mae gan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ac Awdurdodau Lleol fynediad at ddigon o goed o darddiad lleol, ynghyd â'r sgiliau a'r gwasanaethau sydd eu hangen i blannu "y goeden gywir yn y lle cywir". Mae defnyddio coed sydd wedi cael eu cyrchu a'u tyfu yng ngwledydd Prydain ac Iwerddon yn arfer safonol erbyn hyn, sy'n lleihau'r risg o fewnforio plâu a chlefydau yn sylweddol.[14]

Ffotograff: Nigel Pugh – Gwrych Newydd, Geraint Davies, Fferm Fedwarian



# 3. RYDYN NI'N GALW AR LYWODRAETH NESAF CYMRU I WNEUD Y CANLYNOL:



Ffotograff: Kylie Jones Mattock – Coed Felenrhyd a Llennyrch

## DIOGELU AC ADFER EIN TREFTADAETH FYW

Mae coed hynod, coedwigoedd glaw tymherus a choetiroedd hynafol Cymru yn anhepgor. Unwaith maen nhw wedi dirywio neu wedi eu colli, does dim modd eu hadfer drwy ailblannu. Nid dim ond asedau ecolegol yw'r tirweddau hyn; maen nhw'n asedau diwylliannol – sy'n siapio hunaniaeth, creadigrwydd a threftadaeth. Mae eu gwarchod yn fuddsoddiad yng nghalon y genedl.

### YR ALWAD:

Rhoi'r cyllid amddiffyn ac adfer hirdymor y mae cymaint o'i angen ar dirweddau coediog a choed hynod mwyaf eiconig a phwysicaf Cymru.

### Y DYSTIOLAETH:

- Dim ond 9% o goetiroedd brodorol a 22% o goedwigoedd glaw tymherus sydd mewn cyflwr da – yn aml mae'r ecosystemau hanfodol hyn yn brin o gymhlethdod, fel bod â digon o goed o wahanol oedrannau, cyflyrau a meintiau, sy'n eu gwneud yn llai effeithiol fel cynefinoedd i fywyd gwyllt.[15]
- Ers y flwyddyn 2000, mae o leiaf 11 rhywogaeth wedi diflannu o Gymru, gyda llawer mwy mewn perygl.[16]
- Gallai buddsoddiad o ryw £212 miliwn (ar brisiau 2024) erbyn 2030 sicrhau bod dwy ran o dair o'n coetiroedd hynafol ar y ffordd at adferiad, er lles natur a phobl.[17]

### YR ATEBION POLISI:

### DIOGELU

- Sefydlu amddiffyniad cyfreithiol i goed hynod a hynafol fel asedau cenedlaethol anhepgor drwy sefydlu cofrestr o asedau treftadaeth fyw.[18]
- Cryfhau'r amddiffyniadau cynllunio ar gyfer yr holl goetiroedd hynafol a choed hynod, wedi'u cefnogi gan ganllawiau cliriach, mapio TPO sydd ar gael i'r cyhoedd, a swyddogion coed sy'n cael eu hariannu'n briodol mewn awdurdodau lleol.
- Gosod a chyflawni cerrig milltir a thargedau hirdymor a thymor byr i leihau bygythiadau i goetiroedd, gan gynnwys llygredd amonia, rhywogaethau ymledol a phoblogaethau ceirw sydd heb eu rheoli.
- Cryfhau pwerau Cyfoeth Naturiol Cymru i'r un lefel â'r sefyllfa yn Lloegr, ac ariannu gwaith gorfodi'n briodol.[19]

### ADFER

- **Cyd-ddylunio a chyflawni Strategaeth Coedwigoedd Glaw Cymru** gyda thirfeddianwyr ac arbenigwyr, gyda chefnogaeth cyllid hirdymor a phartneriaethau ar raddfa'r dirwedd sy'n tynnu cyllid cyhoeddus a phreifat ynghyd. Gallai cronfa o'r fath ffurfio prototeip ar gyfer ecosystem ariannol newydd gyda sicrwydd ansawdd, er mwyn darparu manteision creu coetiroedd, adfer coetiroedd a choed trefol yn gyfartal i bobl Cymru.[20]
- **Dod ag o leiaf ddwy ran o dair o goetiroedd hynafol o dan reolaeth adferol weithredol erbyn 2030,** gan ddefnyddio targedau statudol o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru), er mwyn gyrru cyflawniad a gosod cerrig milltir interim clir.
- **Sicrhau bod Asesydd Diogelu'r Amgylchedd Cymru yn cael eu grymuso** i ddwyn cyrff cyhoeddus i gyfrif am gyflawni rhwymedigaethau amgylcheddol.
- **Adnewyddu a chyflawni Strategaeth Ceirw Cymru,** gan sicrhau gwaith rheoli ceirw cydlynus heb greulondeb sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n gweithio ar draws ffiniau er mwyn galluogi gwaith adfywio coetiroedd ac adfer ecosystemau hirdymor.
- **Gwneud ystâd goedwig gyhoeddus Cymru yn esiampl o arfer gorau** o ran cadwraeth, gan sicrhau bod yr holl goetiroedd hynafol yn cael eu hadfer a'u rheoli'n gynaliadwy er mwyn sicrhau gwydnwch ecolegol hirdymor.

### SUT MAE 'DA' YN EDRYCH:

- Mae Cynghrair Coedwig Law'r Alban yn dangos sut gall cydweithio a buddsoddiad cyfalaf naturiol adfer coedwigoedd glaw tymherus prin ar raddfa fawr. Ar ôl cael ei hysbrydoli gan y model hwn, cyhoeddodd Cynghrair Coedwigoedd Glaw Cymru ei hadroddiad cyntaf yn 2024, gan nodi sut gellid datblygu a dyblygu ymagwedd gydweithredol debyg yng Nghymru er mwyn cyflymu adferiad coedwigoedd glaw a denu buddsoddiad.[21]

# 4.

# RYDYN NI'N GALW AR LYWODRAETH NESAF CYMRU I WNEUD Y CANLYNOL:





### TYFU CYMRU GYDA CHOED, GAN GEFNOGI SWYDDI GWYRDD

Mae'r daith gydweithredol tuag at economi werdd wedi dechrau eisoes. Mae'r dewis i Gymru yn syml: datblygu sgiliau a chadwyni cyflenwi gartref, neu barhau i ddibynnu ar fodel sy'n ysgogi datgoedwigo a niwed amgylcheddol dramor.

Rhaid i Gymru achub ar y cyfle i fod ar flaen y gad yn y momentwm hwn.

Mae coed yn sail i gyflogaeth fedrus, hirdymor ar draws y gadwyn werth gyfan, o blanhigfeydd coed i waith creu a rheoli coetiroedd, adeiladu gyda phren cynaliadwy, gweithgynhyrchu ac arloesi gyda chynnyrch. Mae'r rhain yn swyddi ymarferol mewn llefydd penodol, sy'n cadw gwerth yn cylchredeg yng nghymunedau Cymru ac yn lleihau ein dibyniaeth ar gadwyni cyflenwi byd-eang sy'n ysgogi datgoedwigo.

Ond mae economi goedwigoedd gref yn dibynnu ar bobl. Rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru fuddsoddi i fynd i'r afael â phrinder sgiliau – gan fwrw ymlaen â'r Gwasanaeth Natur Cenedlaethol, prentisiaethau a hyfforddiant – fel bod gan Gymru'r gweithlu sydd ei angen i sicrhau adferiad ar lawr gwlad, i ddatblygu cadwyni cyflenwi domestig gwydn ac i gynnal twf economaidd hirdymor.

### YR ALWAD:

Buddsoddi yn y sgiliau, y gwasanaethau a'r seilwaith sydd eu hangen ar Gymru er mwyn arwain yn yr economi natur.

### Y DYSTIOLAETH:


- Mae coedwigaeth, pren a thirlunio eisoes yn cyfrannu dros £528 miliwn i economi Cymru bob blwyddyn.[22]
- Bydd cyrraedd targedau plannu cenedlaethol yn gofyn am ehangu'r gweithlu medrus hwn yn sylweddol – cynnydd o hyd at 86% erbyn 2030.[23]

### YR ATEBION POLISI:

- **Gweithredu Gwasanaeth Natur Cenedlaethol Cymru** fel llwybr sgiliau a chyflogaeth blaenllaw, gan gysylltu pobl sy'n chwilio am waith â lleoliadau gyda thâl, prentisiaethau, hyfforddiant, gwaith gwirfoddol a chymorth menter yn canolbwyntio ar adfer natur.
- **Ymgorffori economi'r tir a sgiliau gwledig mewn cynlluniau datblygu cenedlaethol a rhanbarthol** gyda chronfa sbarduno ar gyfer gweithgarwch economi gylchol gan gynnwys arloesi mewn cynhyrchion pren lleol, hyfforddiant ar gyfer rheoli coetiroedd, datblygu planhigfeydd coed lleol a chymunedol a rhaglenni i ddenu cynulleidfa amrywiol ac ifanc.
- **Cyhoeddi cynllun cyflawni coetiroedd clir** i fodloni argymhellion y Pwyllgor Newid Hinsawdd, gan gyflymu gwaith creu coetiroedd er mwyn cyrraedd 24% o arwynebedd erbyn 2050, gyda dros hanner yr ehangu yn digwydd yn sgil coed brodorol drwy wrychoedd, amaeth-goedwigaeth ac adfywio coed brodorol.[24]
- **Buddsoddi mewn planhigfeydd coed yng Nghymru fel rhan o sector planhigfeydd sy'n cyrchu ac yn tyfu coed yng ngwledydd Prydain ac Iwerddon** er mwyn diwallu'r galw cynyddol am gyflenwad coed bioddiogel sydd wedi'u dilysu o ffynonellau lleol, gan gadw gwerth economaidd yng Nghymru a gosod safonau uchel ar gyfer gwaith plannu a ariennir yn gyhoeddus. Normaleiddio arferion gorau drwy fynnu stoc leole a choed bioddiogel wedi'u gwirio (fel UKISG) ar gyfer pob cynllun plannu ac ailstocio brodorol a ariennir yn gyhoeddus.[25]
- **Mabwysiadu dull strategol Cymru gyfan o reoli coetiroedd** sy'n tynnu rhanddeiliaid ynghyd, gan ganolbwyntio ar ddad-ddarnio coetiroedd, gwella ecolegol, rhestru a mesur systematig, a datblygu marchnadoedd pren i ategu cadwyni cyflenwi lleol.
- **Caffael cyhoeddus** sy'n cefnogi busnesau Cymru a chynhyrchion pren cynaliadwy.
- **Ailddychmygu Coedwig Genedlaethol Cymru** fel partner cyflawni a galluogwr grymus a rhagweithiol ar gyfer rhwydweithiau coetiroedd cymunedol, gan alluogi cymunedau i gyd-ddylunio a gweithredu prosiectau coed a choetiroedd lleol sy'n creu nifer o fanteision ac yn cryfhau economïau cylchol lleol.

### SUT MAE 'DA' YN EDRYCH:

- Drwy ddefnyddio pren presennol ac adeiladu cadwyni cyflenwi lleol, darparodd prosiect Dyfodol Coedwigoedd Dartmoor lwybr ar gyfer creu swyddi medrus, economïau cylchol a choedwigoedd gwytnach.[26]







# EIN GALWAD AR Y SENEDD NESAF

Nid peth braf i'w gael yw diogelu ac adfer ein treftadaeth fyw. Pan fydd cyllidebau'n dynn, atebion naturiol yw'r buddsoddiad doeth. Mae coed a choedwigoedd yn cefnogi mesurau iechyd ataliol, ffermio gwydn, amddiffyn rhag llifogydd, swyddi medrus, a ffyniant hirdymor – ddydd ar ôl dydd.

**Gallwn dyfu Cymru gyda choed.**



Ffotograff: Will Barker, The Social Approach



[1] Coed Cadw (2025), Cyflwr Coedwigoedd a Choed y DU 2025

[2] Coed Cadw (2024). Gallai buddsoddi mewn mannau gwyrdd leihau'r pwysau ar y gwasanaeth iechyd.

[3] Coed Cadw (2022). Llwybrau i 2030: 10 maes allweddol ar gyfer buddsoddi yn adferiad natur ledled Cymru. / Grangetown Gwyrddach, Arup. Prosiect draenio trefol cynaliadwy sy'n anelu i drawsnewid cymdogaeth

[4] Coed Cadw (2025) Arolwg Agweddau'r Cyhoedd 2025

[5] Konijnendijk, C. et al. (2023). Y rheol 3-30-300 ar gyfer coedwigaeth drefol a dinasoedd gwyrddach. Llywodraeth y Deyrnas Unedig (2025). Cynllun Gwella Amgylcheddol. Bluesky (2030). Dadansoddiad o'r Rheol 3+30+300

[6] Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (2025). Strategaeth Coed a Choetiroedd Eryri 2025-2125

[7] Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (2016). Strategaeth Coed a Choetiroedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam – 2016-2026

[8] Cymdeithas Ecolegol Prydain (2025) Manteision creu coetir ar raddfa dalgylch yn ucheldiroedd gwledydd Prydain o ran rheoli llifogydd yn naturiol.

[9] NFFN Cymru Sut mae ffermydd yng Nghymru yn hybu gwydnwch.

[10] Science Direct, Mesur y rheol 3-30-300 i helpu dinasoedd i gyrraedd trothwyon mynediad at natur

[11] Coed Cadw (2025), Amaeth-goedwigaeth yng Nghymru

[12] Coed Cadw (2025), Sut mae Talybont yn mynd i'r afael â llifogydd gyda choed

[13] Llais y Goedwig, Cefnogi datblygiad meithrinfeydd coed cymunedol ledled Cymru

[14] Coed Cadw (2025), Gwreiddiau Cryf: Tyfu Meithrinfeydd Coed Prydeinig

[15] Coed Cadw (2025), Cyflwr Coedwigoedd a Choed y DU 2025

[16] Cyfoeth Naturiol Cymru, Rhywogaethau Daearol a Dŵr Croyw mewn Perygl yng Nghymru

[17] Cyswllt Amgylchedd Cymru, Llwybrau i 2030: 10 maes allweddol ar gyfer buddsoddi yn adferiad natur ledled Cymru

[18] Coed Cadw, Rhestr Coed Hynafol

[19] Llywodraeth Cymru, Diogelu Coed a Choetiroedd yng Nghymru - byddem yn cymeradwyo argymhellion Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru (1, 2, 3, 4, 7 ac 8).

[20] Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2025

[21] ACT, Achub Coedwig Law'r Alban gyda Buddsoddiad Cyfalaf Naturiol

[22] Confor, Coedwigaeth yng Nghymru, Diwydiant cynaliadwy ar gyfer yr 21ain ganrif

[23] Coed Cadw (2025), Cyflwr Coedwigoedd a Choed y DU 2025

[24] Cyflymu'r gwaith o greu coetiroedd newydd o flwyddyn i flwyddyn, gan gyrraedd dros 5,000 hectar y flwyddyn erbyn 2035. Bydd angen i'r cynllun cyflawni hwn gynnwys targedau a cherrig milltir, proses gymeradwyo a phiblinell prosiectau, prosesau ar gyfer olrhain pob math o ardaloedd coediog newydd gan gynnwys amaeth-goedwigaeth a gwladychu naturiol, blaengynllunio ar gyfer y galw am blanhigfeydd coed yng Nghymru a dull systematig o ymdrin â bygythiadau fel ceirw a phlâu a chlefydau newydd.

[25] Coed Cadw (2020). Tarddiad coed mewn hinsawdd newidiol: Datganiad safbwynt

[26] Llywodraeth y Deyrnas Unedig (2025), Dyfodol Coedwigoedd Dartmoor

---

Elusen yw Coed Cadw sydd wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr rhif 294344 ac yn yr Alban rhif SCO38885.

Cwmni di-elw cyfyngedig drwy warant yn Lloegr rhif 1982873.

Mae logo Coed Cadw yn nod masnach cofrestredig. Chwefror 2026.

COED CADW
WOODLAND
TRUST